

Alwyn Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Alwyn Jones,

Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Fodd bynnag, credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Government Buildings
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydwethredol o hybu gwelliant sy'n seiliedig ar gryfderau.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

Gwasanaethau plant:

- cyfarfod adolygu perfformiad, 10 Ebrill 2019
- cynhadledd gwella, 3 Mai 2019, i drafod y cynnydd a wnaed ers y gynhadledd gwella a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2018
- cyfarfod adolygu ymarfer a pherfformiad, 21 Awst 2019
- gweithgareddau â ffocws mewn gwasanaethau plant, 24 a 25 Medi 2019, i adolygu ffeiliau a chofnodion a ddewiswyd. Cyfweiliadau â staff yn y Tîm Pwynt Mynediad Unigol, uwch-reolwyr a swyddogion
- cyfarfod rhwng AGC a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, 18 Rhagfyr 2019, i drafod pryderon a chynnydd
- cyfarfod rhwng AGC a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, 9 Ionawr 2020, i drafod pryderon a chynnydd
- adolygu gwaith sicrwydd ac asesiadau risg, 26 Chwefror 2020
- gweithgareddau â ffocws, 22 Ionawr 2020, gan adolygu un achos o bryder yn benodol

Gwasanaethau Oedolion:

- cyfarfod adolygu perfformiad, 10 Ebrill 2019
- cyfarfod adolygu ymarfer a pherfformiad, 21 Awst 2019
- arolygiad o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), 15 a 16 Hydref 2019

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â'r awdurdod lleol wrth i'r gweithgareddau a restrir uchod fynd rhagddynt, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus, a rennir â'r awdurdod lleol yn gyson.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

Llesiant

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae pryderon AGC mewn perthynas â gwasanaethau plant wedi cynyddu o fod yn ddifrifol i sylweddol. Mae gwybodaeth perfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam dros y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos bod meysydd perfformiad allweddol wedi gwaethygu o ran arferion diogelu. Yn y gynhadledd gwella a gynhaliwyd ym mis Mai 2019, rhoddwyd sicrwydd i AGC bod cynnydd yn cael ei wneud drwy wybodaeth perfformiad gadarnhaol, penodi staff a lleihau'r llwyth gwaith. Nid yw hyn yn wedi cael ei ategu. Nododd adolygiad o ffeil person ifanc sy'n agored i niwed a gynhaliwyd gan AGC nifer o feysydd pryder mewn perthynas â diogelwch a llesiant. Mae'n galonogol nodi y cafodd Bwrdd Gwella Cyflym ei sefydlu ym mis Hydref 2019. Dywedodd y

Prif Weithredwr mai amcan y bwrdd yw gwneud gwelliannau gwirioneddol a rhoi cynlluniau gweithredu ar waith a'u hadolygu. Mae cynllun gwella sy'n cynnwys amcanion allweddol ar waith.

Mae'n gadarnhaol nodi bod yr arolygiad o Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol Wrecsam, a gynhaliwyd ar y cyd rhwng AGC ac AGIC, wedi dod o hyd i dystiolaeth yn dangos bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar y cyfan.

Pobl

Mewn gwasanaethau oedolion, mae AGC wedi nodi grŵp bach ond profiadol o uwch-reolwyr sy'n barod i roi cynnig ar dulliau newydd. Rydym wedi nodi ymrwymiad i arferion diogelu a diogelu wrth amddifadu o ryddid, a chydweithio da ym maes diogelu gydag Ysbyty Maelor Wrecsam.

Roedd adborth staff y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol mewn perthynas â llwyth gwaith ac ansawdd y dulliau rheoli ac arwain yn gymysg, ac mae angen i'r tîm rheoli ymchwilio i hyn ymhellach. Nododd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y gwasanaeth a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth a ddarperir gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn rhagorol neu'n dda iawn, a dywedodd bron pob un ohonynt fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch. Nododd yr arolygiad o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol fod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu cynlluniau gofal a thriniaeth, a bod pobl berthnasol megis aelodau o'r teulu neu ofalwyr hefyd yn cael eu cynnwys, lle y bo'n briodol. Mae hyn yn gadarnhaol am ei fod yn dangos bod egwyddorion Deddf 2014 megis cydweithredu ac arferion sy'n seiliedig ar gryfderau yn cael eu hystyried.

Drwy weithgarwch gwerthuso perfformiad AGC, rydym wedi pwysleisio'r angen brys am newidiadau i ddiwylliant gwasanaethau plant er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd yr holl staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth, gan sicrhau bod plant yn ganolog i'r arferion a'r broses o wneud penderfyniadau. Mae AGC wedi cydnabod y bydd angen penodi cyfarwyddwr statudol ac uwch-dîm newydd mewn gwasanaethu plant er mwyn cyflawni hyn yn llawn.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi datblygu porth recriwtio ar-lein newydd sy'n cynnwys nifer o elfennau a fydd yn gwella'r ffordd y caiff y Gymraeg ei defnyddio a'r ffordd yr adroddir arni mewn perthynas â'r gweithlu. Mae gan yr awdurdod lleol restr gyfredol sydd ar gael yn hawdd o gyflogeion sy'n siarad Cymraeg. Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn sicrhau y caiff y staff eu hannog i wneud y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer gwasanaeth yn Gymraeg, a bod hyn yn cael ei gofnodi. Mae cynlluniau i wella lefel y wybodaeth a gaiff ei chofnodi am y Cynnig Rhagweithiol ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, ac i sicrhau bod modd i'r bobl sy'n cysylltu â'r Tîm Dyletswydd Brys (allan o oriau) gael gwasanaeth yn eu dewis iaith. Bydd AGC yn adolygu cynnydd drwy ein gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn 2020-2021.

Mae'r awdurdod lleol wedi mynd i'r afael ag ôl-groniad o achosion Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid dros flynyddoedd a fu, ac mae'n parhau i weithredu heb restr aros. Mae hyn yn wahanol i lawer o awdurdodau eraill yng Nghymru, ac mae'n rhoi sicrwydd bod llesiant y bobl yn cael ei sicrhau yn ddiogel. Mae gan yr awdurdod lleol Dîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid pwrpasol, mae'n cynnal cyfarfod dyrannu bob wythnos,

ac mae proses glir ar gyfer awdurdodi a sicrhau ansawdd. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Atal

Nododd yr arolygiad o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol achosion o oedi wrth ymateb i bobl, o'r adeg atgyfeirio hyd at yr adeg pan gaiff eu hamgylchiadau eu hasesu. Mae hyn yn golygu y gall pobl â phroblemau iechyd meddwl aciwt fynd yn fwy sâl neu ddioddef ail bwl o salwch, ac o ganlyniad mae'n bosibl na chaiff eu hanghenion eu diwallu mewn modd amserol. Mae hyn yn faes ymarfer allweddol y mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fynd i'r afael ag ef.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad. Mae'r awdurdod lleol yn adrodd bod cyfarfodydd cynllunio gofal a chyfarfodydd rheoli risgiau yn cael eu cynnal ar gyfer plant y mae perygl y bydd eu lleoliad yn chwalu.

Partneriaethau

Ym mis Chwefror 2020, rhoddodd uwch-swyddogion a rheolwyr sicrwydd i AGC am ymrwymiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam i gymryd camau cynhwysfawr ar unwaith i wella canlyniadau i blant a theuluoedd. Mae AGC yn cydnabod bod y broses hon eisoes wedi dechrau, gan fod arian ychwanegol wedi cael ei neilltuo a bod mwy o gapasiti mewn uwch-swyddi. Mae'n galonogol gweld bod yr awdurdod lleol wedi gofyn am help gan y cyfarwyddwr statudol mewn awdurdod lleol arall, yn ogystal â gofyn am help gan awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth, y bwrdd diogelu rhanbarthol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r gweithgareddau â ffocws a gynlluniwyd gan AGC i roi barn amodol ar gynnydd wedi cael eu gohirio o ganlyniad i amgylchiadau COVID-19.

Nododd yr arolygiad o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol fod dull amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith ar gyfer asesu, cynllunio ac adolygu gofal, a bod y bobl a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn y broses. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y dull amlddisgyblaethol ar gyfer darparu gofal yn dda.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng

presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ar ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, AGIC ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.
Archwilio Cymru
AGIC
Estyn